# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Mai 2019

Amser: 14.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

SeneddMCD@cynulliad.cymru

# - Atodiad 1

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**4.4 Llythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd: Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)**

(Tudalennau 1 - 11)

**CLA(5)-16-19 - Papur 8** - Llythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd, 16 Mai 2019

**Dogfennau atodol:**

CLA(5)-16-19 - Papur 8 - Llythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd - 16 Mai 2019

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales



Mick Antoniw AM
Cadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

16 May 2019

Annwyl Mick

**Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)**

Diolch am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i chi ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) ar 7 Mai 2019. Edrychaf ymlaen at ystyried adroddiad eich Pwyllgor ar egwyddorion cyffredinol y ddeddfwriaeth.

Yn dilyn eich gohebiaeth ar 8 Mai 2019, amgaeaf fy ymateb, yn yr Atodiad a ganlyn, i nifer o gwestiynau eraill na lwyddodd y Pwyllgor i'w cyrraedd yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 7 Mai oherwydd prinder amser.

Efallai y byddai'n werth i mi egluro un o'r pwyntiau a gododd yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 7 Mai. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth honno, gofynnodd Dawn Bowden AC:

“there won't be any obligation on them to prove a connection, will there? Presumably, the local authority could follow that up and say, 'Well, actually, we do need a bit of information from you', but there isn't an absolute requirement on them to prove they've got a connection to a particular area. Am I right?”

I fod yn glir, bydd yn rhaid i ymgeisydd sy'n gwneud datganiad ddarparu nifer o ddarnau o wybodaeth (a amlinellir yn adran 7B o Ddeddf 1983, fel y'i diwygiwyd gan y Bil y Senedd ac Etholiadau (Cymru)). Mae'r system hon yn seiliedig ar gyfundrefn sydd eisoes ar waith, sy'n caniatáu i bobl heb gartref wneud datganiad o gysylltiad lleol ar hyn o bryd.

Bydd awdurdod lleol yn gallu ceisio gwybodaeth ychwanegol, fel yr amlinellwyd yn y sesiwn dystiolaeth.

Yn gywir,

Elin Jones AC

# Atodiad

## Y Comisiwn Etholiadol

**Bydd y Comisiwn Etholiadol yn cadw cyfrifoldeb am etholiadau'r DU. Sut bydd hyn yn effeithio ar atebolrwydd y Comisiwn i'r Cynulliad?**

Pe bai'r Comisiwn Etholiadol yn dod yn atebol i'r Cynulliad yn y dyfodol, byddai'r atebolrwydd hwnnw ar gyfer ei waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru yn unig. Ni fyddai ei atebolrwydd i'r Cynulliad yn effeithio ar gyfrifoldeb parhaus y Comisiwn Etholiadol dros reoleiddio etholiadau'r DU.

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn parhau'n un corff corfforaethol ac rwy'n deall ei fod yn bwriadu cadw un cynllun corfforaethol ar gyfer y DU gyfan. Byddai'r ymraniad hwn yn y trefniadau atebolrwydd a'r trefniadau ariannu'n anarferol, a byddai rhan o'r cyllid yn cael ei gytuno gan Bwyllgor y Llefarydd, Senedd yr Alban (cyhyd ag y bo'r Alban yn deddfu'n ôl y disgwyl), a'r Cynulliad.

Mae fy swyddogion yn trafod gyda'r Comisiwn Etholiadol yr angen i'w gwneud yn glir yn ei gynlluniau cyllidebol a'i amcangyfrifon pa elfennau sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig yng Nghymru a pha rai sy'n ymwneud â gweithgareddau'r DU.

**Pa gysylltiad rydych chi wedi'i gael gyda'r Comisiwn Etholiadol ynglŷn â dylunio ffurflenni cofrestru newydd?**

Mater i'r Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol yw gweinyddu etholiadau, gan gynnwys dylunio ffurflenni cofrestru. Byddant yn cael cyngor a chymorth gan Lywodraeth Cymru.

Deallaf fod y Comisiwn Etholiadol wedi cynnwys y datganiad hwn yn ei dystiolaeth i adlewyrchu ei fwriad i hysbysu swyddogion Comisiwn y Cynulliad am ddatblygiad y ffurflenni cofrestru, gan fod y broses ddylunio yn debygol o ddechrau cyn i'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) gael Cydsyniad Brenhinol. Gall y ddeialog hon fod yn ddefnyddiol wrth alluogi swyddogion Comisiwn y Cynulliad i ddiweddaru'r amcangyfrifon cost a gynhwysir yn y Memorandwm Esboniadol mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn.

**Mewn tystiolaeth, soniodd yr awdurdodau lleol y gallai’r Bil llywodraeth leol ddarparu rhywfaint o ddeddfwriaeth alluogi gyffredinol i fynd ar drywydd gweinyddiaeth ddigidol. Sut byddai hyn yn effeithio ar etholiadau'r Cynulliad?**

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd moderneiddio etholiadau. Nawr bod pwerau etholiadol wedi'u datganoli, mae'n arbennig o bwysig bod strategaeth glir ar gyfer etholiadau Cymru ac ar gyfer gwella ymgysylltiad democrataidd. Mae'r Bil hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir, ond mae'n amlwg bod mwy i'w wneud.

Mater i Lywodraeth Cymru yw arwain o ran moderneiddio'r drefn o weinyddu etholiadau, nid Comisiwn y Cynulliad, ac felly nid yw Comisiwn y Cynulliad wedi trafod gweinyddiaeth ddigidol yn benodol, ac nid oes ganddo farn ychwaith ar gyflwyno unrhyw ddatblygiadau o'r fath ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.

Deallaf y byddai unrhyw newidiadau i'r drefn o weinyddu'r gofrestr llywodraeth leol yr un mor berthnasol i gofrestriadau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, gan y defnyddir y gofrestr ar gyfer y ddau etholiad (mae'r un peth yn wir am y broses ganfasio a chofrestru h.y. defnyddir yr un broses ar gyfer diweddaru'r gofrestr llywodraeth leol a chofrestr y Cynulliad).

Bydd y rhain yn faterion i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt wrth i bwerau gael eu datganoli iddynt. Wrth gwrs, bydd Gweinidogion Cymru yn cael eu dwyn i gyfrif gan y Cynulliad mewn perthynas â'u penderfyniadau ar y materion hyn.

**Yn ei thystiolaeth, mae Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn awgrymu y dylai Cynulliad Cymru archwilio, comisiynu, goruchwylio, monitro a thalu pob cyflenwr EMS yn uniongyrchol i newid y feddalwedd. Beth yw eich barn am ei sylwadau?**

Nid yw Comisiwn y Cynulliad yn gyfrifol am weithredu cofrestru etholiadol, ac felly ni fyddai'n gyfrifol am unrhyw gostau sy'n ymwneud â phrosesau cofrestru etholiadol na systemau rheoli. Ni fydd swyddogion Comisiwn y Cynulliad yn ymwneud ag archwilio, comisiynu neu fonitro'r broses na’r systemau cofrestru. Yn hytrach, mater i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ei ddatrys fyddai hwn.

Trafodais y mater hwn yn fy nghyfarfod â Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ar 30 Ebrill 2019: cytunodd mai mater i Lywodraeth Cymru oedd hwn.

## Anghymhwyso

**Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud eisoes mai ei blaenoriaeth ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud ag anghymhwyso yw sicrhau bod y gyfraith yn y maes hwn mor glir â phosibl. Ydych chi'n fodlon bod y darpariaethau fel y'u drafftiwyd yn cyflawni'r nod hwn?**

Rwy'n fodlon bod y darpariaethau'n glir. Egluro'r rheolau ar anghymhwyso yw un o brif amcanion y Bil hwn. Byddwn wrth gwrs yn croesawu unrhyw gynigion gan y Pwyllgor os ydych chi'n ystyried y gellid gwneud pethau'n gliriach.

Mae'r darpariaethau ar anghymhwyso yn seiliedig ar yr argymhellion ar anghymhwyso a wnaed gan ragflaenydd eich Pwyllgor yn y Pedwerydd Cynulliad. Argymhellodd y Pwyllgor hwnnw fframwaith deddfwriaethol penodol ar gyfer anghymhwyso, lle byddai'r rheolau ar anghymhwyso yn cael eu gosod mewn deddfwriaeth sylfaenol, gyda'r elfennau sy'n anghymhwyso yn cael eu nodi mewn Gorchmynion o fewn dau gategori – y categori cyntaf fyddai anghymwysiadau sy'n gymwys wrth ymgeisio, a'r ail fyddai anghymwysiadau sy'n gymwys wrth dyngu llw.

Mae'r Bil yn dilyn y fframwaith a argymhellwyd gan Bwyllgor y Pedwerydd Cynulliad, heblaw bod y categori cyntaf o anghymwysiadau wedi'u nodi ar wyneb y Bil (Atodlen 1A). Mae hyn yn adlewyrchu arwyddocâd ychwanegol yr anghymwysiadau hynny sy'n gwahardd person rhag sefyll etholiad. Credaf fod hyn yn cynnig fframwaith deddfwriaethol clir a chydlynol ar gyfer anghymhwyso.

Mae'r darpariaethau ar y rheolau ar anghymhwyso yn eithaf manwl er mwyn nodi'r drefn yn glir ar gyfer ystod o wahanol sefyllfaoedd. Mae'n rhaid i'r darpariaethau ystyried y posibilrwydd y bydd Aelod presennol yn cael ei anghymhwyso tra bydd yn gwasanaethu yn y Cynulliad, er enghraifft oherwydd iddo gael ei ethol i Senedd arall.

Mae'n werth cofio hefyd mai diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn bennaf yw'r darpariaethau ar anghymhwyso yn y Bil hwn. Er nad yw'r darpariaethau diwygio yn Rhan 4 o'r Bil yn hawdd i'w darllen ar eu pen eu hunain, bydd y darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru fel y'i diwygir gan y Bil yn haws eu deall. Mae testun Deddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y bydd yn ymddangos wedi iddo gael ei ddiwygio gan y Bil i'w weld yn Atodiad 9 o'r Memorandwm Esboniadol – atodlen o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth.

**Awgrymwyd y byddai'n haws dweud, os oes unrhyw beth yn eich anghymhwyso, a chithau wedi tyngu llw i ddod yn Aelod Cynulliad, yr ystyrir eich bod wedi ymddiswyddo o'r swydd honno. A ydych yn dal i fod o'r farn y byddai hyn y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad?**

Pe bai'r Cynulliad am gyflwyno proses ymddiswyddo awtomatig, mae materion cymhwysedd deddfwriaethol yn codi am fod penodiadau o rai o'r swyddi sy'n anghymwyso, a diswyddiadau o'r swyddi hynny, y tu allan i gwmpas deddfwriaethol y Cynulliad. Er enghraifft, ni allai'r Cynulliad ddeddfu ynghylch diswyddo barnwyr, Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil na'r Rheolwr na'r Archwilydd Cyffredinol.

Dylid nodi hefyd y gallai'r goblygiadau i gyflogwyr yn sgil ymddiswyddiadau awtomatig fod yn sylweddol, ac mae'n rhesymol disgwyl i ymgeiswyr gymryd y cyfrifoldeb eu hunain dros ymddiswyddo o swyddi sy'n anghymhwyso.

**Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol mewn tystiolaeth lafar yr wythnos diwethaf bod gwaith i'w wneud mewn perthynas â'r rhan hon o'r Bil. Er enghraifft, dywedodd nad yw'n darparu ar gyfer anghymhwyso staff Comisiwn y Cynulliad. Beth yw eich barn am ei sylwadau?**

Un o amcanion y darpariaethau ar anghymhwyso oedd annog cyfranogiad democrataidd trwy alluogi cynifer o bobl â phosibl i sefyll etholiad.

Os yw dal swydd benodol yn debygol o achosi gwrthdaro buddiannau o ran **sefyll etholiad**, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i anghymhwyso'r deiliaid swyddi hynny. Er enghraifft, gwaherddir Prif Weithredwr a Chlerc Comisiwn y Cynulliad rhag sefyll mewn etholiad. Mae hyn yn symbol o annibyniaeth a didueddrwydd y cyngor y mae'r Prif Weithredwr yn ei roi i Aelodau etholedig.

Mae angen gwahaniaethu rhwng:

(i) Swyddogion Comisiwn y Cynulliad a allai fod â gwrthdaro buddiannau am fod eu rolau yn gynghorol; a

(ii) y rheini y mae eu rolau yn weithredol nad ydynt felly'n debygol o arwain at wrthdaro buddiannau.

Byddai nodi 'categorïau' o staff Comisiwn y Cynulliad ar wyneb deddfwriaeth yn ddull rhy anhylaw o fynd i'r afael â'r mater hwn. Yn lle hynny, gellid mynd i'r afael â hyn yn well trwy gontractau cyflogaeth unigol y staff a'u cod ymddygiad, a allai gynnwys cyfyngiadau penodol. Mae rhesymeg debyg yn sail i'r dull a welir yn y ddeddfwriaeth o ran anghymhwyso gweision sifil.

Rwy'n rhagweld y byddai holl staff Comisiwn y Cynulliad yn cael eu hanghymhwyso rhag **gwasanaethu fel Aelodau** (h.y. byddai'r anghymhwysiad yn dod i rym ar

unigolyn pan fo' tyngu llw neu'n rhoi'r cadarnhad cyfatebol). I'r perwyl hwnnw, byddai holl staff y Comisiwn yn cael eu cynnwys mewn gorchmynion anghymhwyso a wneir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Fodd bynnag, byddwn yn croesawu'n fawr farn y Pwyllgor ar y mater hwn.

**Sut y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r newidiadau ynghylch anghymhwyso yn y Bil ?**

Bydd angen i'r newidiadau i'r gyfraith ar anghymhwyso a gyflwynir gan y Bil gael eu hategu gan ganllawiau gan gyrff perthnasol. Mae canllawiau sy'n ymwneud ag anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad yn cael eu llunio'n rheolaidd gan y Comisiwn Etholiadol. Mae'n bosibl y byddai angen i Gomisiwn y Cynulliad, Llywodraeth Cymru a Thŷ'r Arglwyddi hefyd ddarparu canllawiau yn ôl yr angen. Ymgynghorwyd â phob un o'r sefydliadau hyn ar y newidiadau i'r gyfraith ar anghymhwyso ac felly maent yn ymwybodol o'r angen i adolygu eu canllawiau maes o law.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwynt hwn i'w chael yn adran 4.4.3 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil.

**Ar ba adeg y bydd anghymhwysiad rhag dal swydd gyhoeddus benodol yn dod i rym a sut bydd y Bil yn sicrhau'r newid hwnnw?**

Fel y nodwyd gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad, mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 yn gwrthddweud y darpariaethau ar anghymhwyso yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr mewn etholiad Cynulliad ddatgan, wrth iddynt gael eu henwebu, nad oeddent wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Cynulliad. I bob pwrpas, golyga hyn na chaiff pobl sydd wedi'u hanghymhwyso rhag **gwasanaethu** yn y Cynulliad **sefyll etholiad** ychwaith. Mae hwn yn gyfyngiad diangen ar gyfranogiad democrataidd.

Mae'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn diwygio Gorchymyn 2007 i'w gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgan nad ydynt wedi'u hanghymwyso rhag sefyll i gael eu hethol i'r Cynulliad. Bydd hyn yn sicrhau bod personau sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Cynulliad, ond nad ydynt yn anghymwys i sefyll etholiad, yn gallu sefyll fel ymgeiswyr. Dim ond pe baent yn cael eu hethol y byddai'n rhaid iddynt roi'r gorau i'r swydd sy'n eu hanghymhwyso.

O ganlyniad i hyn:

- os bydd dal swydd gyhoeddus benodol yn achosi gwrthdaro buddiannau gyda sefyll etholiad ar gyfer y Cynulliad (e.e. aelodau o'r Comisiwn Etholiadol), bydd y deiliaid swyddi hynny yn anghymwys i sefyll etholiad;
- os bydd dal swydd benodol yn achosi gwrthdaro buddiannau o ran gwasanaethu yn y Cynulliad ond nid o ran sefyll etholiad, bydd y deiliaid swyddi hynny, os cânt eu hethol, yn cael eu hanghymhwyso ar yr adeg y byddant yn tyngu’r llw.

Ceisiwyd sicrhau, hyd y gellir, fod cyn lleied â phosibl yn anghymwys i sefyll etholiad er mwyn denu cynifer o bobl â phosibl i sefyll.

## Darpariaethau Comisiwn y Gyfraith

**Fe wnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor o’r blaen fod rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn cael ei ystyried ar adeg cyflwyno'r Bil fel ffordd resymol o gyflwyno'r darpariaethau hyn. Ydych chi’n dal o'r farn mai'r dull hwn yw'r ffordd fwyaf priodol o ddiwygio cyfraith etholiadol?**

Credaf fod darpariaethau'r Bil yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydgrynhoi’r gyfraith etholiadol, fel yr argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ac fel y mae nifer o dystion wedi cyfeirio ato yn y Pwyllgor hwn.

Rwy'n ymwybodol o farn y Cwnsler Cyffredinol y dylai argymhellion Comisiwn y Gyfraith gael eu gweithredu, yn lle hynny, drwy’r weithdrefn ar gyfer creu deddfwriaeth sylfaenol yn gyflym.

Rwy’n eiddgar i glywed barn y Pwyllgor ar y mater hwn, gyda'r bwriad o drafod y cynnig amgen hwn gyda Chomisiynwyr y Cynulliad.

## Cwestiwn atodol

**A ydych yn bwriadu ceisio cymeradwyaeth i ymestyn yr amserlen ar gyfer Cyfnod 2 i sicrhau na fydd trafodion yn cael eu cynnal hyd nes bod y gwelliannau yr ydych yn bwriadu eu cynnig i adran 27 o'r Bil wedi'u cyhoeddi a'u costio'n llawn, gyda'r cyfle i ni a rhanddeiliaid graffu arnynt?**

Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi nodi y bydd yn arwain ar gyflwyno gwelliannau i adran 27. Byddaf yn trafod gydag ef faterion yn ymwneud â'r gwelliannau hyn, gan gynnwys yr amserlen bosibl o ran sicrhau bod y gwelliannau ar gael i'r Pwyllgor. Rwy'n ymwybodol o farn y Pwyllgor bod angen eglurder cyn gynted á phosibl am unrhyw bolisïau y gellid bwrw ymlaen â hwy drwy welliannau, fel bod y Pwyllgor a rhanddeiliaid eraill yn gallu eu hystyried.  Bydd fy swyddogion yn gweithio'n agos â swyddogion y Cwnsler Cyffredinol a'r Comisiwn Etholiadol i alluogi hynny.

Mae'r gymuned etholiadol yn aml wedi mynegi'r farn bod angen i ddeddfwriaeth fod yn ei lle o leiaf chwe mis cyn canfasiad y flwyddyn cyn yr etholiad pryd y bydd angen i'r ddeddfwriaeth gael effaith. Byddai hyn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan yr amserlen ddeddfwriaethol ar gyfer y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), gan y bwriedir iddo gael y Cydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr 2019 neu fis Ionawr 2020. Gallai ymestyn yr amserlen ar gyfer Cyfnod 2 beri risgiau sylweddol i'r amserlen hon.

**Pa rôl ddylai sefydliadau addysgol ac awdurdodau lleol ei chwarae yn yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y bobl ifanc hynny sydd y tu allan i'r system ysgolion?**

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol a Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru i wneud y ddeddfwriaeth yn llwyddiant, ac i'w gweithredu'n llyfn er mwyn paratoi'r ffordd i genhedlaeth newydd o bleidleiswyr leisio'u barn. Fel rhan o'r broses honno, byddwn yn sicrhau ein bod hefyd yn ymgysylltu â'r bobl ifanc hynny y bernir eu bod yn anodd eu cyrraedd.

Er enghraifft, mae trafodaethau rhwng fy swyddogion, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol wedi nodi'r angen i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref, yn ogystal â'r rheini o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fel rhan o'i gyfrifoldebau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o etholiadau, mae'r Comisiwn Etholiadol eisoes yn gweithio gyda'r Mudiad Teithwyr i annog pobl i gofrestru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu contract i sefydliad ymchwil i wneud gwaith ymchwil gyda grwpiau o bleidleiswyr sydd newydd gael yr etholfraint er mwyn llywio strategaethau ar gyfer ymgysylltu â hwy am eu hawliau democrataidd a hybu cyfranogiad ac ymgysylltiad pleidleiswyr. Yn ystod y gwaith ymchwil, cynhelir nifer o

grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda phobl ifanc mewn ysgolion a’r tu allan iddynt, yn ogystal â grwpiau eraill sydd wedi cael yr etholfraint ond sydd wedi ymddieithrio. Disgwylir i'r ymchwil gael ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2020. Fodd bynnag, caiff canfyddiadau dros dro ac adroddiadau a gyflwynir yn ystod y contract ymchwil eu defnyddio i ddechrau datblygu adnoddau addysgol ac ymgysylltu ac ymgyrch i godi ymwybyddiaeth.

Hefyd, nododd Senedd Ieuenctid Cymru 'Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm' yn ddiweddar – a oedd yn cynnwys gwleidyddiaeth yn ogystal â chyllid ac addysg ryw-fel un o'i thair blaenoriaeth uchaf ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Yn fwy cyffredinol, mae ymgysylltu â sefydliadau partner y tu allan i'r ysgol wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddatblygiad y Senedd Ieuenctid wrth ein helpu i ymgysylltu â phobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd. Bydd yr hyn a ddysgir o'r dull hwnnw yn bwydo i mewn i'n gwaith yn y maes hwn.

**Petai'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn rhoi hawliau pleidleisio i garcharorion a gwladolion tramor cymwys, a ydych chi'n credu y byddai'n ddryslyd cael dull gwahanol yng Nghymru ar gyfer etholiadau Cynulliad a llywodraeth leol? Ai eich bwriad yw cyflwyno gwelliannau i ymdrin â'r materion hyn yng Nghyfnod 2 y Bil?**

Nid wyf yn bwriadu cyflwyno gwelliannau yn ymwneud â rhoi’r hawl i ddinasyddion y tu allan i'r UE a dinasyddion nad ydynt yn aelodau o'r Gymanwlad bleidleisio.

Mae'r Cwnsler Cyffredinol eisoes wedi datgan i'r Pwyllgor hwn ei fod yn bwriadu cyflwyno gwelliannau ar y mater hwn. Mae'n bosibl y byddai mwyafrif o Aelodau'r Cynulliad yn cefnogi gwelliannau o'r fath yn ystod y Cyfnodau Diwygio, ond byddai angen i'r Bil gael ei basio gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Aelodau yng Nghyfnod 4.

O ran yr hawl i garcharorion bleidleisio, mae Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad wrthi'n cynnal ymchwiliad i’r mater hwnnw. Edrychaf ymlaen yn eiddgar i glywed canfyddiadau'r Pwyllgor ac nid wyf am achub y blaen ar ei argymhellion. Byddai'n rhaid i ystyriaeth ofalus o adroddiad y Pwyllgor lywio unrhyw gamau deddfwriaethol a gymerir yn y dyfodol.

Yn fwy cyffredinol, rwyf wedi datgan o'r blaen fy ngobaith y gall etholfreiniau llywodraeth leol a'r Cynulliad barhau yr un peth. Byddai'n fwy cyfleus yn weinyddol i'r un bobl gael pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad.

Fodd bynnag, er y byddai'n well cael un dull ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad, nid yw hynny'n golygu na allwn ddiwygio etholfraint y Cynulliad heb ddiwygio'r etholfraint llywodraeth leol. Mae'r etholiadau'n cyflawni gwahanol ddibenion cyfansoddiadol. Mae llywodraeth leol yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau lleol, sy’n effeithio’n uniongyrchol ar breswylwyr

lleol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud penderfyniadau ar faterion o egwyddor a chyfeiriad, gwerthoedd a chyfreithiau Cymru gyfan.

O'm safbwynt i, y prif beth sydd ei angen ar gyfer y Bil hwn yw sicrhau bod etholfraint y Cynulliad yn asio ag anghenion etholiadau'r Cynulliad. Byddwn yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y materion o ran cysondeb, eglurder a chyfleustra mewn unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r etholfraint Llywodraeth Leol.

Mae eisoes yn wir bod gwahanol bobl yn gallu pleidleisio yn etholiadau Seneddol y DU, o'u cymharu â'r rhai sy'n gallu pleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad. Felly, os bydd gwahaniaeth yn yr etholfraint, mae gan y gymuned etholiadol a'r systemau etholiadol brofiad eisoes o reoli hynny, fel arfer drwy farcio'r cofrestrau etholiadol yn briodol.